

Mae'r canllaw hwn yn ystyried y broses o *wneud* nodiadau yn hytrach na'u *cymryd*. Mae gwneud nodiadau yn chwarae rôl bwysig wrth ddatblygu'r sgiliau i fod yn gritigol – boed mewn meddwl neu mewn gwaith ysgrifenedig. Yn y canllaw hwn, cewch eglurhad o'r hyn yw gwneud nodiadau, yn ogystal â chynghor defnyddiol ar sut i'w ymarfer.

Gwahaniaeth rhwng gwneud a chymryd nodiadau

Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng gwneud nodiadau a chymryd nodiadau?

Cymryd nodiadau

Fel mae'r enw yn awgrymu, mae cymryd nodiadau yn broses oddefol: mae'n golygu ysgrifennu cymaint ag y gallwch chi ei glywed gan diwtor – neu ddarllen mewn gwrslyfr – heb wahaniaethu rhwng gwybodaeth ddefnyddiol a'r llai defnyddiol. Mae tuedd i'r nodiadau hyn fod yn rhai disgrifiadol iawn ac yn eang eu ffocws. Gan fod cymryd nodiadau yn oddefol ei natur a heb olygu llawer o feddwl, mae'n arwain at ddysgu arwynebol dros dro.

Gwneud nodiadau

Mae gwneud nodiadau yn broses mwy gweithredol sy'n golygu dewis darnau perthnasol o wybodaeth yn ofalus wrth i chi wrando ar y tiwtor neu ddarllen gwrslyfr neu erthygl mewn cylchgrawn. Felly, nod gwneud nodiadau ydy peidio ag ysgrifennu popeth a glywch neu ddarllen i lawr ond yn hytrach cadw nodyn o unrhywbeth sy'n berthnasol neu sydd angen mwy o ymchwil neu esboniad. Mae'r nodiadau a wneir fel hyn yn fwy ystyrlon a phwrpasol yn ogystal â bod yn fwy trefnus ac yn fwy perthnasol. Mae natur weithredol gwneud nodiadau yn golygu bod angen defnyddio amrediad o sgiliau critigolrwydd. Mae felly'n rhoi cyfle i chi ddatblygu'r sgiliau hyn wrth i chi ddysgu.


Pam ei bod yn well i ymarfer gwneud nodiadau yn hytrach na chymryd nodiadau? Ystyriwch yr hyn a drafodwyd uchod:

1. **Proses weithredol:** mae gwneud nodiadau yn broses weithredol sy'n golygu meddwl a defnyddio sgiliau sy'n ymwneud â chritigolrwydd.
2. **Critigolrwydd:** mae gwneud nodiadau yn cynnig cyfle i ymarfer y sgiliau sy'n

ymwneud â chritigolrwydd (gweler isod am ragor o wybodaeth ar hyn).

3. **Dysgu dwfn ei lefel:** drwy roi dull mwy critigol o wneud nodiadau ar waith bydd eich dysg yn ddyfnach ac yn fwy parhaol. Hynny ydy, byddwch yn cofio mwy am gyfnod hirach.
4. **Perthnasedd a defnyddioldeb:** drwy ddethol gwybodaeth yn ôl ei defnyddioldeb, byddwch yn anochel yn creu nodiadau sy'n berthnasol, yn ystyrlon ac yn haws i'w defnyddio.
5. **Adfyfrio:** fel y gwelwn mae ymarfer gwneud nodiadau hefyd yn rhoi cyfle i chi adfyfrio ar ehangder eich gwybodaeth. Wrth i chi wneud nodyn o wybodaeth berthnasol, gallwch hefyd cadw cofnod o unrhyw syniad neu gysyniad sydd angen ymchwil pellach.

Critigolrwydd a gwneud nodiadau



Fe y mae'r tabl hwn yn dangos mae gwneud nodiadau yn golygu defnyddio'r sgiliau uwch hynny sydd wrth wraidd critigolrwydd. Bydd ymarfer gwneud nodiadau yn eich galluogi i ddatblygu'r sgiliau hyn a thrwy hynny finio gi gwedd gritigol eich gwaith.

Dulliau o fynd ati i wneud nodiadau

Mae nifer o ffyrdd o fynd ati i wneud nodiadau. Chi fydd yn penderfynu pa ddull i'w ddefnyddio – bydd gan wahanol bobl ffyrdd gwahanol o ddysgu, ac felly dydy un dull ddim yn rhagori ar y llall. Cofiwch, gallwch addasu unrhyw un o'r dulliau hyn o fynd ati i weddu i'ch anghenion.

- a. **Mapiau meddwl:** dydy pawb ddim yn hoffi mapiau meddwl ond mae dwy fantais bendant iddyn nhw: (i) mae cynnwys graffeg neu luniau yn cynnig cyfle i ddysgu'n weledol, sydd i lawer o fyfyrwyr yn ddull mwy effeithiol o gofio gwybodaeth; (ii) mae

